## GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
## Y FANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Hyfforddi a Datblygu |
| **TEITL Y SWYDD** | Gweinyddydd Systemau Hyfforddi |
| **RHIF Y SWYDD** | NU110 |
| **GRADD** | 7 |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd |

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir** ac a nodir â seren***** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Dull Canfod |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol ar gyfer y swydd hon | | |
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad ymarferol o becynnau Microsoft Office e.e. Outlook, Word, Excel ac ati, a gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o wahanol systemau TGCh a'r gallu i ddadansoddi a rheoli data** | **Hanfodol*** | **Ffurflen Gais/Proses Ddethol** |
| | Profiad o weithio'n annibynnol/weithio heb oruchwyliaeth o fewn rôl weinyddol ac o gefnogi eraill | Hanfodol | Proses Ddethol |
| | Dealltwriaeth sylfaenol o raglennu cyfrifiaduron | Dymunol | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Profiad o weithio o fewn amgylchedd hyfforddi | Dymunol | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Profiad o weithio â chyrff dyfarnu cymwysterau | Dymunol | Ffurflen Gais/Proses Ddethol |
| | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Ffurflen Gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Arddull Bersonol** | Y gallu i anwesu a chynnig gwerth i amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa<br><br>Y gallu i weithio mewn cydymffurfiaeth lwyr â pholisïau gweithredol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir<br><br>**Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol**<br><br>**Bod yn rhagweithiol wrth gefnogi newid, ac â'r gallu i addasu dulliau i gwrdd â gofynion newidiol** | Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | Proses Ddethol<br><br>Ffurflen Gais/Proses Ddethol<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol**<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol** |
| **Rhyngbersonol** | Y gallu i arwain, ymroi ac ysgogi eraill o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Gymuned ill dau.<br><br>Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd<br><br>**Yr ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol.** | Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>**Hanfodol*** | Proses Ddethol<br><br>Proses Ddethol<br><br>**Ffurflen Gais/Proses Ddethol** |
| **Tasg** | Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol<br><br>Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo dulliau gwaith diogel ac effeithiol<br><br>Y gallu i arwain eraill i gyflawni rhagoriaeth drwy sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad | Hanfodol<br><br>Hanfodol<br><br>Hanfodol | Proses Ddethol<br><br>Proses Ddethol<br><br>Proses Ddethol |

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

**Bydd angen archwiliad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn achos cais llwyddiannus. Ni fydd meddu ar gofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i chi dderbyn swydd.**